South West and Mid Wales Consortium
Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru

Making Connections
Creu'r Cysylltiadau

# Consortiwm Canolbarth a De-orllewin Cymru

## Creu'r Cysylltiadau

# Crynodeb Gweithredol
# A
# Casgliadau

**Mehefin 2007**

Prosiect a gefnogir yn rhannol gan arian o Gronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad prosiect hwn yn dod â phrosiect Creu'r Cysylltiadau De-orllewin a Chanolbarth Cymru, a gefnogir gan arian o Gronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ben yn llwyddiannus. Mae deilliannau'r prosiect yn dangos bod y model gwaith Consortiwm a ddatblygwyd yn darparu modd i chwe awdurdod Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru i gydweithio i geisio gwella perfformiad disgyblion. Mae hefyd yn darparu cyfrwng ar gyfer cyflwyno ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o weithio.

## 1. Prosiect Creu'r Cysylltiadau

Mae Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru (swamwac) yn sefydliad llwyddiannus, effeithlon a chydweithiol sy'n cynnwys Awdurdodau Addysg Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys a Dinas a Sir Abertawe. O fewn Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru mae 635 o ysgolion a gwasanaethau addysgu, sef 32% o ysgolion Cymru a 28% o'r disgyblion. Mae 48% o'r ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ac mae 52% o'r ysgolion yn rhai cyfrwng Saesneg gyda Chymraeg fel ail iaith. Un o gryfderau'r Consortiwm yw'r cydbwysedd hwn rhwng ysgolion trefol a gwledig, ysgolion bach a mawr, ysgolion mewn ardaloedd cyfoethog ac ardaloedd sydd wedi'u hamddifadu'n gymdeithasol ac ysgolion Cymraeg a Saesneg.

Mae'r chwe awdurdod wedi cydweithio fel Consortiwm ers 2000. Dechreuodd yn fach am fod ei gylch gwaith yn gyfyngedig i nifer bach o feysydd, ond wrth i ddeilliannau cadarnhaol gwaith y consortiwm gael eu gwireddu, mae'r cylch gwaith wedi cael ei estyn. Cyflawnwyd deilliannau cadarnhaol yn sgîl gwaith consortiwm mewn meysydd fel Asesiadau Trothwy athrawon, Rheoli Perfformiad athrawon a phenaethiaid, Ailfodelu'r Gweithlu a Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Mae'r holl awdurdodau o fewn y Consortiwm yn cydnabod manteision gwaith consortiwm ac maent i gyd yn ymroddedig i ddatblygu gwaith Consortiwm ymhellach.

Yn 2006, cyflwynodd Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru gais llwyddiannus am arian o Gronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu gwaith Consortiwm ymhellach. Mae'r grant a dderbyniwyd, ynghyd â chyfraniadau gan bob un o'r chwe awdurdod wedi ariannu Prosiect Creu'r Cysylltiadau.

Mae Consortiwm Canolbarth a De-orllewin Cymru'n bwriadu llunio model trosglwyddadwy newydd fel rhan o ddiwygio ar dair lefel. Mae'r model hwn yn seiliedig ar egwyddor cydweithio agos (yn hytrach nag anfon gwaith allan yn fasnachol) i ymdrin â materion allweddol, noddi arloesedd a gwella effeithlonrwydd. Mae cyflawniadau'r consortiwm hyd yn hyn yn awgrymu y gallai ddarparu model ar gyfer cydweithio rhanbarthol a gwaith partneriaeth sy'n cyfateb i gymeriad unigryw Polisi Addysg Cymru, ac y gellid ei gymhwyso ar draws y wlad.

Mae cyd-destun clir i'r ffordd mae'r Consortiwm yn gweithredu. Bydd angen i waith y consortiwm fod yn ymatebol i ddatblygiadau cyfredol a newydd, gan gynnwys yr amcanion a nodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu:- Gweledigaeth ar Waith; y gofyniad am Gynllun Sengl i Blant a Phobl Ifanc; Codi Safonau a

Gwella Ysgolion; Ar Draws Ffiniau (Adroddiad Beecham); Creu'r Cysylltiadau; Cyflwyno Gwell Gwasanaethau i Gymru; a'r Agenda Diwygio ar Dair Lefel.

## 2. Ymgynghori a Chyfathrebu

Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i gyfathrebu effeithiol o fewn y prosiect, fodd bynnag mae rheoli cyfathrebu â'r holl randdeiliaid wedi bod yn her. Sefydlwyd amrywiaeth o strategaethau cyfathrebu, gan gynnwys adroddiadau ysgrifenedig, cyfarfodydd a amserlennwyd, hwyluso cyfathrebu mewnol o fewn awdurdodau a datblygu'r wefan.

Yn ystod y prosiect, roedd ymrwymiad i'r ymgynghoriad ehangaf posib. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori cychwynnol ar agweddau at waith partneriaeth, gan gynnwys manteision a rhwystrau. Drwy gydol y prosiect roedd deialog parhaus rhwng rhanddeiliaid a'r Grwpiau Gweithredol. Ymgynghorwyd yn helaeth ar ddeilliannau'r prosiect drafft. Drwy gydol y prosiect, hwyluswyd dogfennau a chyfathrebu'n ddwyieithog.

## 3. Ymchwil i gefnogi'r Cynllun Gweithredu a'r Strwythur

Cyflawnwyd amrywiaeth o waith ymchwil a datblygu O'r ymchwil hon, nodwyd nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gwaith Consortiwm; mae'r rhain yn ffurfio deilliannau'r prosiect.

Nodwyd meysydd gweithredu allweddol drwy'r ymchwil ar berfformiad disgyblion, Ysgolion ac Awdurdodau Lleol. Roedd y meysydd a nodwyd yn rhai a fydd yn cyfrannu at godi safonau perfformiad ysgolion ar draws y Consortiwm ac fe'u cynhwyswyd yn y Cynllun Gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Roedd y nifer sy'n astudio Ieithoedd Modern yn swamwac yn isel iawn o'i gymharu â Chymru Gyfan
- Mae Safonau Addysgu, Hyfforddiant ac Asesu mewn ysgolion 5% yn is na ffigur Cymru Gyfan ar gyfer ysgolion cynradd.
- Mae safonau arwain a rheoli 4% yn is na ffigur Cymru Gyfan yn sampl yr ysgolion cynradd a arolygwyd.
- Mae hunanwerthuso ysgolion yn llawer is na ffigur Cymru Gyfan yn sampl yr ysgolion cynradd ac uwchradd a archwiliwyd. Roedd dyfarniadau hunanwerthuso ysgolion uwchradd yn is na'r rheiny mewn ysgolion cynradd.

Ymhlith y meysydd gwella eraill a nodwyd oedd y posibilrwydd o wella cyflwyniad y gwasanaeth a darparu arbedion ariannol neu fel arall drwy archwilio mecanweithiau cyflwyno'n feirniadol a'u haddasu. Roedd hyn yn cynnwys yr arbenigedd sydd ar gael ar hyn o bryd mewn timau ymgynghori, gan gynnwys cynllunio olyniaeth, defnyddio'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwaith Consortiwm, caffael/cyflwyno ar y cyd e.e. ar gyfer systemau cyflenwi a chefnogaeth AD i ysgolion.

Amlygodd yr ymchwil o ran llywodraethu a strwythur amrywiaeth o opsiynau posibl, gan asesu sut y gallent gefnogi datblygiad pellach gwaith y Consortiwm a rhoi'r Cynllun Gweithredu ar waith, a chan argymell opsiwn datblygu y cytunwyd arno gan yr holl bartïon.

Darparodd ein hymchwil dystiolaeth bod llawer o ddiffiniadau o weithio ar y cyd. Datblygwyd a chytunwyd ar ddiffiniad o weithio ar y cyd i sicrhau eglurder.

Rydym yn diffinio gwaith Consortiwm fel sefyllfa lle mae rhai gwasanaethau, neu'r gwasanaethau i gyd yn dod at ei gilydd mewn amrywiaeth o ffyrdd a lle mae pob awdurdod yn y Consortiwm yn cadw cyfrifoldeb am gyflwyniad a safonau statudol y gwasanaeth. Mae gwaith y Consortiwm wedi'i bennu a'i gefnogi gan y chwe awdurdod.

Mae datblygiad gwaith y Consortiwm wedi'i arwain gan fodel sy'n cynnwys ffurfiau gwahanol ar gydweithio, o rwydweithio i integreiddio llawn. Rydym yn credu nad oes un ffordd o weithio sy'n cyfateb i bob sefyllfa ac mae continwwm gwaith y Consortiwm yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol i gynnwys amrywiaeth o sefyllfaoedd ac atebion.

Mae'r awdurdodau wedi archwilio pob maes o gyflwyno'r gwasanaeth/swyddogaeth ac yn ystyried y cyfleoedd am waith consortiwm a'r heriau maent yn eu hwynebu. Yna maent yn penderfynu pa ffordd, os o gwbl, yw'r ffordd fwyaf defnyddiol i gydweithio er mwyn i waith Consortiwm ychwanegu gwerth at waith pob awdurdod. Felly, mewn rhai ardaloedd mae lefel uchel o integreiddio'n darparu'r ffordd orau o sicrhau gwelliannau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd tra bod rhwydweithio'n fwy effeithiol mewn meysydd eraill.

**Continwwm Gwaith y Consortiwm**

| | |
|---|---|
| Integreiddio Llawn | Dyma ble mae gwaith Consortiwm yn cyflwyno gwasanaeth ar y cyd ar draws yr awdurdodau sy'n cymryd rhan. Mae'r awdurdodau'n cronni cyllidebau ac adnoddau i ddarparu'r gwasanaeth |
| Cydweithio | Dyma ble mae'r awdurdodau'n cydweithio ar fentrau penodol, gan rannu adnoddau a chyfrifoldebau, risgiau a gwobrau. |
| Cydweithredu | Dyma ble mae'r awdurdodau'n cydweithio i ddatrys problemau, dileu rhwystrau a chynnig atebion |
| Cydlynu | Dyma ble mae'r awdurdodau'n alinio polisïau a gweithdrefnau, ac yn datblygu ymagweddau cyson |
| Rhwydweithio | Dyma ble mae'r awdurdodau'n rhannu gwybodaeth, yn trafod ymagweddau ac yn nodi arfer gorau. Maent hefyd yn meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd proffesiynol cadarnhaol |

Ar gyfer pob swyddogaeth, mae pawb sy'n ymwneud â gwaith Consortiwm, yn enwedig yn achos y Grŵp Strategol, yn datblygu ffyrdd o arwain a rheoli pob un o'r ffurfiau gwahanol ar weithio ar y cyd yn fwy effeithlon ac yn effeithiol. Mae hyn yn rhan o strategaeth i lunio'r systemau, y sgiliau a'r gwerthoedd y mae eu hangen i lunio dyfodol gwaith y Consortiwm a rhoi gweledigaeth ar waith. Mae gwaith Consortiwm yn darparu cyfle i'r awdurdodau gydweithio mewn ffordd flaengar.

## 4. Deilliannau'r Prosiect

**Deilliannau Prosiect** Creu'r Cysylltiadau

Canolbwyntiodd y prosiect yn benodol ar Wasanaethau gwella ysgolion ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, gyda thri phrif ddeilliant.

Bydd y tri deilliant yn sefydlu gwaith i'r Consortiwm sy'n canolbwyntio ar well safonau o ran cyrhaeddiad disgyblion ac o ran cyflawni:-

- **effeithlonrwydd** drwy rannu costau ac osgoi dyblygu, gan gynnwys gwell cyflwyno gwasanaethau'n well ac arbedion ariannol.
- **arloesi** drwy ailddiffinio amrywiaeth y cyngor a'r gefnogaeth y mae eu hangen i godi safonau o ran cynnwys ac arbenigedd, datblygu methodoleg cyngor a chefnogaeth sy'n gallu cynnal agenda'r gwasanaethau plant, datblygu trefniadau newydd ar gyfer cyflwyno gwasanaethau, gan gynnwys swyddogaethau a rennir, swyddogaethau cydweithiol a swyddogaethau sy'n benodol i bob awdurdod, a datblygu comisiynu ar y cyd ar gyfer gwasanaethau sy'n benodol i bob awdurdod
- **partneriaeth** drwy gynnwys darparwyr a phartneriaid addysg eraill, gan sefydlu rhwydweithiau priodol a hyblyg, bod yn ymatebol i ddefnyddwyr gwasanaeth drwy geisio'u barn, ac adlewyrchu'r cyd-destun a'r anghenion lleol.
- **Gwella Ansawdd yn Barhaus** drwy sefydlu'r model llywodraethu, proses adolygu a monitro gynhwysol, proses ar gyfer mesur effaith gwaith cydlynol gan ddefnyddio data meincnodi, gwasanaeth hyblyg sy'n ymateb i newid mewn ffordd gadarnhaol ac yn adlewyrchu anghenion y partneriaid

## Crynodeb o Ddeilliannau

Mae'r tri deilliant wedi'u crynhoi'n fras isod.

**Crynodeb o Ddeilliant 1:- Cynllun Gweithredu**

Mae'r Cynllun Gweithredu'n nodi'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cyflawni yn ystod y tair blynedd nesaf drwy waith y Consortiwm. Mae'n waith fesul cam sy'n adlewyrchu continwwm gwaith y Consortiwm a'r themâu trosgynnol. Mae dwy ran i'r Cynllun Gweithredu, sef Cynllun Gweithredu Thematig a Chynllun Gweithredu Datblygiadol

- **Y Cynllun Gweithredu Thematig**
  Mae'r cynllun hwn yn crynhoi gwaith arfaethedig y Consortiwm ym mhob maes thematig dros y tair blynedd (tudalennau 57-58)
- **Y Cynllun Gweithredu Datblygiadol**
  Mae hwn yn darparu dadansoddiad manwl o waith arfaethedig y Consortiwm dros gyfnod o dair blynedd. Blwyddyn 1 yw'r flwyddyn fwyaf manwl, a chydnabyddir bod Blwyddyn 2 a 3 yn dibynnu ar adolygiad o ddeilliannau'r blynyddoedd blaenorol a datblygiadau newydd.
  Yn y Cynllun Gweithredu Datblygiadol, mae pob swyddogaeth y nodwyd ei bod yn addas ar gyfer gwaith (tudalennau 59-70)

**Crynodeb o Ddeilliant 2:- Strwythur y Consortium**

I gyflwyno amcanion y Cynllun Gweithredu, bydd model a strwythur ar gyfer gwaith Consortiwm yn cael eu datblygu a fydd yn cyflawni sefydliad cymhwysol a hyblyg sy'n gallu ymateb i amgylchiadau newydd ac sy'n cefnogi'r canlyniadau gorau posib i'r holl blant a phobl ifanc.

Mae dwy elfen allweddol i'r strwythur a gynigir i'r Consortiwm; y model llywodraethu a'r strwythur trefniadaeth a rheoli. Er mwyn alluogi trosglud effeithlon gweithio fel consortiwm maer ddwy elfen yn angenrheidiol i gyflawni'r allbynnau nodwyd yn y Cynllun Gweithredu.

Mae'r model llywodraethu arfaethedig yn cefnogi cyflawni canlyniadau a'r allbynnau dymunol o weithio â'r Consortiwm, ac yn darparu atebolrwydd addas i awdurdodau lleol a'r gymuned randdeiliaid ehangach. Penderfynwyd ar y model dethol gan y Cynllun Gweithredu a'r Strwythur.

<table>
<tr><td>Craffu</td><td colspan="4">Grŵp yr Aelodau Etholedig</td></tr>
<tr><td>Cyfarwyddyd ac arweinyddiaeth corfforedig a monitor</td><td colspan="4">Grŵp y Cyfarwyddwyr</td></tr>
<tr><td>Arweinyddiaeth, cynllunio a monitro strategol</td><td colspan="2">Grŵp Rheoli Strategol</td><td colspan="2">Grŵp y Penaethiaid</td></tr>
<tr><td>Cynllunio gweithredol Gwerthuso Gweithrediad</td><td colspan="4">Gweithrediadau<br>Cydlynydd y Consortiwm</td></tr>
<tr><td></td><td>Cyflwyno</td><td>Hyrwyddo</td><td>Broceriaeth</td><td>COGs<br>(Grwpiau Gweithredu'r Consortiwm)</td></tr>
<tr><td>Cefnogaeth</td><td colspan="4">Cefnogaeth<br>Rôl: Rhoi cefnogaeth i bob maes gwaith y Consortiwm</td></tr>
</table>

**Crynodeb o Ddeilliant 3:- Cynllun Rhoi ar Waith**
Mae'r Cynllun Rhoi ar Waith hwn yn nodi'r broses ar gyfer rhoi Deilliannau 1 a 2 prosiect **Creu'r Cysylltiadau** swamwac, y Cynllun Gweithredu a'r Strwythur ar waith (tudalennau 56-74)

Mae'r broses rhoi ar waith yn cynnwys defnyddio staff proffesiynol presennol i nodi amcanion a bennwyd gan bob Awdurdod, wedi'u cyflwyno gan Awdurdodau sy'n gweithredu ar y cyd.

Egwyddorion Allweddol sy'n ategu'r cynllun rhoi ar waith
1. Gwneud y plentyn (y dinesydd) yn ganolbwynt yr agenda wella gan ganolbwyntio'n bennaf ar wella ysgolion a disgyblion
2. Cyflwyno set o amcanion y cytunwyd arnynt yn lleol, wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu, sy'n seiliedig ar anghenion lleol, gan gynnwys ffyrdd blaengar o weithio sydd hefyd yn cysylltu â'r agenda cenedlaethol fel a ddisgrifiwyd mewn amrywiaeth o ddogfennau cenedlaethol
3. Caniatáu llunio a rheoli gwasanaethau lleol sy'n effeithlon ac yn effeithiol wrth gyflawni 1 a 2 uchod, gan gynnwys y cyfle i greu arbedion a rhoi newidiadau yn y gwasanaeth ar waith

Mae'r chwe awdurdod yng Nghonsortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru, yn cydweithio ar draws continwwm gwaith y Consortiwm, yn seiliedig ar gytundeb ffurfiol, yn golygu y bydd

- ymagwedd o'r gwaelod i'r fyny a fydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid mewn broses ymgynghori lawn
- rheolaeth ac arweinyddiaeth strategol sy'n datblygu addysg yn y rhanbarth yn rhagweithiol
- tîm consortiwm o staff parhaol a secondiadau a reolir, gyda'r gallu i hwyluso newid a chyflawni amcanion cytunedig y Cynllun Gweithredu
- ffordd wahanol o weithio a fydd yn cyflwyno gwasanaethau o safon sy'n cyflawni'r her arloesi a chreu arbedion
- Awdurdodau yn gweithio fel consortiwm i wella'r ddarpariaeth bresennol ym mhob awdurdod
- ysgolion sy'n chwarae rôl strategol wrth gyflwyno'r Cynllun Gweithredu
- Awdurdodau'n ymrwymo i ddarparu adnoddau i ddatblygu a chynnal gwaith Consortiwm

Mae deilliannau ac allbynnau allweddol Blwyddyn 1 wedi cael eu datblygu gyda thargedau, meini prawf llwyddiant a graddfeydd amser, a'u nodi yn y Cynllun Allbwn a atodir yn Atodiad 2.
Bydd yr ymagwedd at y cynllun rhoi ar waith yn seiliedig ar yr ymagweddau rheoli prosiect llwyddiannus ac effeithiol presennol profedig a ddefnyddiwyd yng Ngham 1 y Prosiect. Bydd y prosiect yn adlewyrchu prosesau rheoli newid profedig, a bydd offer rheoli newid priodol yn cael eu defnyddio drwy gydol y cam rhoi ar waith.

Er mwyn rhoi'r strwythur a'r cynllun gweithredu ar waith, bydd angen sefydlu systemau i sicrhau craffu, rheoli strategol, datblygu a mecanweithiau cynllunio gweithredol, cyflwyno, hwyluso a brocera, ynghyd ag ymagwedd rheoli prosiect. Bydd cyfarwyddyd strategol manwl yn cael ei ddarparu gan y grŵp Strategol i gychwyn pob cam gweithredu. Bydd strategaeth weithredu fanwl a graddfa amser yn cael eu pennu a'u datblygu drwy ymgynghori â'r Grwpiau Gweithredol sy'n gyfrifol am gyflwyno'r camau gweithredu penodol.

## 5. Casgliadau a'r Ffordd Ymlaen

Mae deilliannau'r prosiect yn amlygu ymagwedd y Consortiwm yn ystod 2007-2008 fel modd o gyflawni'r deilliant trosgynnol o wella safonau disgyblion. Mae'r deilliannau hefyd yn cydnabod y posibilrwydd o arbed arian.

Drwy roi'r Cynllun Gweithredu a'r Strwythur ar waith, byddwn yn ennill profiad o'r rôl craffu a monitro, a'r materion strategol sy'n codi o waith Consortiwm. Credwn fod y model a ddatblygwyd yn enghraifft sy'n gydnaws â diwygio ar dair lefel, lle mae pawb dan sylw am gyflawni nod cyffredin, sef gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Bydd gwaith Consortiwm yn galluogi arloesi ac arbedion drwy rymuso staff ac awdurdodau i gydweithio i wneud pethau'n wahanol.

Mae'r camau gweithredu y mae eu hangen i gyflawni'r allbynnau a ddymunir o waith Consortiwm wedi cael eu blaenoriaethu. Mae pob awdurdod yn ymrwymedig i ddatblygu gwaith Consortiwm ac maent wedi cronni adnoddau i ariannu'r camau gweithredu a flaenoriaethir a amlinellir yn y cynllun allbwn.

Fodd bynnag, i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith yn gyfan gwbl, cydnabyddir y bydd angen arian dechreuol pellach ac y bydd cynnydd yn gyfyngedig hebddo.

Bydd yr angen am yr adnodd ychwanegol hwn yn cyfiawnhau'r angen i barhau i roi arian i Gronfa Gwella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Adran 5:- Casgliadau a'r Ffordd Ymlaen

## 5.1 Ydy'r prosiect wedi cyflawni'r hyn a nodwyd yn y DdCP?

Deilliant dymunol y prosiect oedd datblygu Gwasanaeth Addysg Strategol a Dysgu Gydol Oes y Consortiwm sy'n addas i'r diben i gefnogi Cynlluniau Addysg Sengl a Deddf y Plant. Rhagwelwyd y byddai gwelliant fesul cam a chynnydd yng ngwaith y Consortiwm dros o leiaf tri cham o'r prosiect.

Rhagwelwyd y byddai tri deilliant allweddol i Gam 1, yn 2006-07, Cynllun Gweithredu, strwythur a model llywodraethu a chynllun rhoi ar waith. Byddai rhoi canfyddiadau'r prosiect, sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu, ar waith dros gamau pellach yn cyflawni gwell gwasanaethau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc.

Cyflawnwyd pob un o ddeilliannau Cam 1 ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Diffiniwyd ffactorau atodol ar gyfer pob un o'r deilliannau yn y DdCP, ac mae'r tabl isod yn nodi a yw'r ffactorau hyn wedi cael eu cyflawni neu beidio.

### Cyflawni'r Deilliannau

| **Deilliant 1:- Cynllun Gweithredu sy'n** | |
|---|---|
| • Ddatblygiadol ac yn ymdrechu i gyflawni sefydliad cynhwysol sy'n hyblyg er mwyn iddo ymateb i amgylchiadau newydd a diwallu anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth | Ydy |
| • Rhoi'r pwyslais ar gyfer pob dyletswydd o'r maes gwaith ar 'y continwwm o gydweithio'. | Ydy |
| • Glynu at egwyddorion Creu'r Cysylltiadau, gwella safonau, effeithlonrwydd, pethau newydd, partneriaeth, gwella ansawdd yn barhaus | Ydy |
| • Amlinellu proses monitro a gwerthuso ar gyfer pob dyletswydd a fydd yn mesur effaith y gweithio'n gydlynol gan ddefnyddio data meincnodi cyfredol | Amlinellir y broses monitro a gwerthuso yn y Cynllun Rhoi ar Waith. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys camau gweithredu penodol i sicrhau bod y broses yn cael ei chyflawni |
| • Parchu ethos pob awdurdod | Ydy |

| **Deilliant 2:- Strwythur** | |
|---|---|
| • Strwythur llywodraethu, gan gynnwys model cyfreithiol | Ydy |
| • Strwythur rheoli a threfnu | Ydy |
| • Model ariannol gan gynnwys manylion am arbedion ac incwm Gershon | Mae'r model ariannol wedi'i gynnwys yn y Cynllun Rhoi ar Waith |
| • Model personél sy'n cynnwys cynllunio olyniaeth dros 5 mlynedd | Mae ymchwil Cynllunio Olyniaeth wedi cael ei chwblhau, gan arwain at gamau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu i alluogi datblygu pellach |
| • Model gweithredol sy'n berthnasol i'r ardal ddaearyddol ehangach | Ydy |
| • Dyletswyddau a fydd yn cael eu hintegreiddio'n gyflawn | Ydy |
| • Dyletswyddau lle bydd arweiniad strategol gan y Consortiwm | Ydy |
| • Swyddogaethau a fydd yn cael eu rhwydweithio a'r graddau y disgwylir ymagweddau cyffredin | Ydy |
| • Manteision i ysgolion o fewn y chwe awdurdod | Ydy |
| • Rhaglen newidiadau i reolwyr a gweithwyr yr awdurdod lleol | Mae'r Cynllun Rhoi ar Waith yn pennu datblygu rhaglen newidiadau, gyda graddfeydd amser |
| • Cysylltiadau disgwyliedig gyda sefydliadau partner, gan gynnwys darparwyr addysg uwch | Ydy |
| • Strwythur a phroses Gwella Ansawdd yn Barhaus (GAP) | Ydy |
| • Dwyieithrwydd | Ydy |
| • Meysydd ychwanegol eraill a nodwyd yn y cynllun gweithredu | Ydy |

| **Deilliant 3:- Cynllun Rhoi ar Waith sy'n cynnwys** | |
|---|---|
| • Dull o rannu'r cynllun | Ydy |
| • Strategaeth Rhoi ar Waith | Ydy |
| • Amserlen | Ydy |

## 5.2 Gwersi a Ddysgwyd

Yn ystod Blwyddyn 1 y prosiect, cododd nifer o broblemau a ohiriodd gynnydd tuag at y deilliannau o fewn y graddfeydd amser cytunedig a gyhoeddwyd. Er bod y prosiect wedi cyflawni'i ddeilliannau, mae'n bwysig dysgu o broblemau o'r fath er mwyn i flynyddoedd dilynol symud ymlaen gydag effeithlonrwydd a hyder cynyddol. Roedd nifer o'r rhain yn ymwneud â'r broses, ond tybir ei fod yn bwysig ymdrin â rhai eraill er mwyn i waith Consortiwm ddatblygu ac i weithio ar y cyd gynhyrchu cyfraniad gwerthfawr at ddeilliannau gwell i blant a phobl ifanc.

### 5.2.1 Tîm y Prosiect a phrosesau

| Problem | Cam gweithredu |
|---|---|
| Cydnabuwyd yn gynnar yn y broses bod cefnogaeth ar gyfer y prosiect wedi'i recriwtio'n rhy hwyr. Mae cefnogaeth barhaus yn hollbwysig o ran parhad a chynnydd. | Ymdriniwyd â hyn yng ngham nesaf y Prosiect, wrth i'r rôl gefnogi gael ei hadolygu a'i datblygu. |
| | Mae technegau rheoli prosiectau'n ddefnyddiol, ond ystyrir bod 'cyffyrddiad ysgafn' yn addas ar gyfer prosiect o'r math hwn. |
| O ganlyniad i wyro o'r cwmpas, collwyd ffocws y prosiect a chynyddodd bwysau amser. | Gofynnodd hyn i Dîm y Prosiect, y Grŵp Strategol a'r uwch reolaeth lynu at ddeilliannau a graddfeydd amser y prosiect. |
| Oherwydd cyfyngiadau amser, ni chaniatawyd digon o amser ymgynghori. | Bydd hyn yn hysbysu penderfyniadau ynghylch cyfnodau ymgynghori yn y dyfodol. |
| Nid yw prosesau rheoli newidiadau eto'n ffurfiol ac nid yw wedi derbyn adnoddau i allu cefnogi'r rhaglen. | O ganlyniad i hyn, bydd rhaglen rheoli newid yn cael ei datblygu a'i rhoi ar waith fel rhan integredig o'r Cynllun Rhoi ar Waith. |
| Mae angen llunio cynlluniau manwl yn gynharach. | Ymdrinnir â hyn yn y Cynllun Rhoi ar Waith |
| Mae angen defnyddio'r flwyddyn academaidd i gynllunio graddfeydd a therfynau amser. | Mae'r cynllun Rhoi ar Waith a chynllun y prosiect yn seiliedig ar ddechrau ym mis Medi 2007. |
| Mae'n bwysig meddu ar Dîm Prosiect aml-ddisgyblaeth o swyddogion ac ymgynghorwyr i ddarparu golwg ehangach ar ddatblygu'r Prosiect. | Ymdrinnir â hyn yn y Cynllun Rhoi ar Waith. |

### 5.2.2 Dadansoddiad Data

| Problem | Cam gweithredu |
|---|---|
| Delir data mewn amrywiaeth o fformatau yn yr awdurdodau, gan wneud cymharu'n anodd.<br>Nid yw systemau TGCh yn gyfatebol ar draws yr awdurdodau, ac mae hyn yn rhwystro dadansoddi data a gwneud cynnydd tuag at nifer o gamau gweithredu. | Mae adolygiad o systemau TGCh wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu cytunedig a nodir pan fydd yn dechrau yng ngham 1 y Cynllun Rhoi ar Waith. |
| Pryderon ynghylch rhannu data ysgolion a data ar lefelau disgyblion. | Datryswyd y pryderon hyn drwy gytuno ar brotocol. |

### 5.2.3 Grwpiau Gweithredol

| Problem | Cam gweithredu |
|---|---|
| Mae rhai grwpiau'n fwy aeddfed na'i gilydd ac mae lefelau amrywiol o ymrwymiad a phresenoldeb. Mae rhai swyddogion ar nifer o grwpiau ac mae eu hamser yn gyfyngedig. Mae gormod o grwpiau sydd wedi estyn adnoddau'r prosiect i allu darparu hwyluso a chyfeiriad clir. | Mae'r Cynllun Rhoi ar Waith yn nodi aildrefnu'r Grwpiau Gweithredol, datblygu targedau cytunedig ar gyfer y grwpiau a disgrifiadau swydd penodol ar gyfer hwyluswyr. |
| Mae angen pennu trefniant y grwpiau a'r cylch gorchwyl. Nid yw rhai grwpiau wedi gweithredu'n strategol ac nid ydynt wedi canolbwyntio ar allbynnau. | Bydd cylch gorchwyl y grwpiau sydd eisoes wedi cael eu datblygu'n cael eu hadolygu a'u hailgyflwyno i'r grwpiau. |
| Mae nifer o grwpiau sy'n ddatblygedig iawn ac yn gallu cynnal eu hunain wrth ddatblygu amcanion y Prosiect. | Bydd cylch gorchwyl a chyfansoddiad pob grŵp a nodwyd yn y Cynllun Rhoi ar Waith yn cael eu hadolygu, ond cydnabyddir gwerth arbenigedd ac ymrwymiad cyfredol. |

### 5.2.4 Llywodraethu

| Problem | Cam gweithredu |
|---|---|
| Mae angen elfen wleidyddol i roi cefnogaeth ac amlygrwydd i'r prosiect. Mae materion cyfreithiol a gweithdrefnol posib sy'n gysylltiedig â chyfranogiad a chraffu aelodau wrth ddod â'r chwe Awdurdod ynghyd. | Mae'r cynllun rhoi ar waith yn nodi camau gweithredu i gefnogi cyflwyno'r strwythur a'r trefniadau llywodraethu. |
| Mae angen i Uwch Reolwyr ddangos ymrwymiad clir i waith partneriaeth a'r cyfeiriad strategol. | Mae'r Cynllun Gweithredu'n cynnwys nifer o gamau gweithredu strategol i ymdrin ag ymrwymiad a materion cyfeiriad strategol. |
| Mae angen i reolwyr ganolbwyntio ar ddeilliannau ond nid yw'r rhain yn hawdd eu mesur. Ni fydd y deilliannau hynny o reidrwydd yn arwain at arbed costau. | Mae gan y Cynllun Rhoi ar Waith dargedau a meini prawf llwyddiant i gefnogi'r cyfeiriad strategol ac Cynyddu Gallu. Mae dull o nodi arbedion ariannol a'r rheiny nad ydynt yn ariannol yn cael ei ddatblygu |
| Mae angen trefnu ac amserlennu cyfarfodydd ymlaen llaw ar draws y chwe awdurdod. | Nodir camau gweithredu yng ngham 1 y cynllun rhoi ar waith ac yn yr adroddiad 'cynllunio allbwn'. |
| Mae angen i grŵp Ffocws y Penaethiaid gynrychioli barn Penaethiaid a darparu adborth ar eu cyfer. | Mae targed a meini prawf llwyddiant ar gyfer cyfarfodydd Penaethiaid wedi'u cynnwys yn yr adroddiad 'cynllunio allbwn'. |
| Mae'r prosiect wedi llwyddo i ddod ag amrywiaeth o grwpiau rhanddeiliaid ynghyd (e.e. Penaethiaid, Aelodau Etholedig, etc.) ar draws y Consortiwm. | Bydd angen i hyn fod yn flaenoriaeth yn y cam nesaf. |

### 5.2.5 Ymchwil

| Problem | Cam gweithredu |
|---|---|
| Roedd penodi Grŵp Gweithredol Data Ysgolion yn hwyr yn y broses wedi rhwystro eu rôl yn y broses gwneud benderfynu a chyfathrebu dilynol. | Nodir bellach bod gan y grŵp rôl allweddol wrth weithio'n effeithiol tuag at wella ysgolion ar draws y Consortiwm, a bydd yn cael ei datblygu ymhellach. |
| Tanseiliwyd hygrededd y data am berfformiad gan y ffaith ei fod yn dibynnu ar ddata asesiadau athrawon. | Ymdrinnir â hyn yng ngham nesaf y prosiect drwy nodi strategaethau i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon ar draws y Consortiwm. |
| Mae pwysigrwydd data Ymddiriedolaeth Teulu Fischer wedi cael ei nodi. | Mae strategaethau'n cael eu rhoi ar waith i ddefnyddio'r wybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd. |
| Mae'n glir bod dilysrwydd rhai elfennau o'r ymchwil wedi cael ei gwestiynu e.e. Adolygiad o Arolygiadau Estyn, Arolwg Canfyddiadau'r Comisiwn Archwilio. | Eglurwyd y materion hynny ar ddechrau pob adroddiad ac ni ddefnyddiwyd deilliannau'r darnau hynny o ymchwil ar eu pennau eu hunain i gyfeirio cynllunio yn y dyfodol. Mewn rhai achosion bydd y data'n dod yn fwy defnyddiol at ddiben cymharu os cytunir ar safonau ymateb gan yr holl Awdurdodau, yn unol â chynigion yn y Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Rhoi ar Waith. |
| Mae deilliannau'r ymchwil wedi dangos anghysondebau yn lefel y ddarpariaeth mewn gwasanaethau ymgynghorol ar draws y chwe AALl a bod perfformiad ysgolion yn amrywiol. | Mae'r wybodaeth hon wedi cyfeirio cynllunio ar gyfer y dyfodol. |

### 5.2.6 Gwaith Partneriaeth

| Problem | Cam gweithredu |
|---|---|
| Mae adeiladu a chynnal ymddiriedaeth yn hanfodol er mwyn i'r prosiect symud ymlaen ac i waith partneriaeth wireddu'r buddion. | Bydd y Cynllun Rhoi ar Waith yn meithrin hyn drwy ddefnydd effeithiol o hwyluswyr mewn cyfarfodydd Grwpiau Gweithredol ac o fewn y trefniadau strwythur a llywodraethu. |
| Nid yw cyfathrebu rhwng Tîm y Prosiect a'r awdurdodau ac o fewn yr awdurdodau wedi bod yn effeithiol bob amser | Bydd y strategaeth gyfathrebu'n cael ei diwygio a'i datblygu ymhellach i gefnogi cam gweithredu 1.1 y Cynllun Gweithredu. |

## 5.3 Deilliannau Strategol a themâu a materion datblygol

### 5.3.1 Ailddiffinio'r Deilliant Cyffredinol

Wrth weithio tuag at y deilliant cyffredinol - datblygu gwasanaeth addysg a dysgu gydol oes i'r Consortiwm sy'n addas i'r diben i gefnogi Cynlluniau Addysg Sengl a'r Ddeddf Plant - daeth yn amlwg fod angen ailddiffinio, adolygu ac egluro hyn er mwyn i gyfraniad staff ysgolion ac addysg sicrhau'r canlynol:-

1. Cefnogir pob plentyn i gyfranogi, i gyrraedd ac i gyflawni, ac fe'u galluogir i gyflawni'u potensial llawn
2. Mae'r gwasanaethau'n canolbwyntio ar y plentyn
3. Mae safonau ysgolion yn parhau i wella

Ac mae'r deilliannau allweddol hyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Allbwn a Flaenoriaethir (tudalen 91) o fewn y Cynllun Rhoi ar Waith

### 5.3.2 Llywodraethu a Strwythur, Gwaith Partneriaeth a Chontinwwm Gwaith y Consortiwm

Mae'n hawdd deall y model llywodraethu a'r strwythur a model ymarferol y bartneriaeth, y cytunwyd arnynt o ganlyniad i ddatblygu ymchwil y prosiect, a gellir eu trosglwyddo i wasanaethau eraill.

Mae wedi dod yn amlwg mai'r hyn sy'n cael ei ddatblygu yw 'Gwaith Consortiwm' yn hytrach na'r 'Consortiwm'. Mae deall bod gwaith Consortiwm yn cynnwys yr holl randdeiliaid a'i fod yn Gontinwwm o waith partneriaeth yn elfen allweddol o ddatblygu effeithiol.

Mae gwerth gwaith partneriaeth yn cael ei dderbyn yn fwy cyffredinol o fewn y 6 Awdurdod a chan eraill o ganlyniad i'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'n glir bod llawer o rwystrau i'w trechu o hyd, gan gynnwys drwgdybiaeth ynghylch colli 'rheolaeth' posib, materion ariannol, materion daearyddol. Nodwedd allweddol model swamwac yw ei fod yn cydnabod ac yn ymdrin â mater Awdurdodau sy'n cadw cyfrifoldeb a pherchnogaeth dros wasanaethau, ac ar yr un pryd yn estyn gwaith partneriaeth lle mae'n gallu ychwanegu gwerth.

### 5.3.3 Y Cynllun Gweithredu a'r Cynllun Rhoi ar Waith

Nodwyd nifer sylweddol o gamau gweithredu, yn seiliedig yn gadarn ar yr ymchwil a gyflawnwyd, lle gallai gwaith Consortiwm ychwanegu gwerth, a daeth yn amlwg bod nifer o themâu penodol yr oedd y rhai yn ffitio iddynt. Diffiniwyd y themâu hyn a'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Thematig, (tudalennau 56) sef offeryn defnyddiol y gellir pennu targedau yn ei erbyn i fesur cynnydd yng Ngham 2.

Dyma'r tair thema:-

- Cyfeiriad Strategol a Chynyddu Gallu
- Datblygu'r Gweithlu

- Cyngor, Cefnogaeth a Her

Yn erbyn pob thema, datblygwyd datganiad o fwriad a chamau gweithredu allweddol. Mae'r Cynllun Allbwn o fewn y Cynllun Gweithredu'n nodi sut y bydd cynnydd i gyflawni camau gweithredu allweddol yn cael ei fesur, ynghyd â'r raddfa amser.

### 5.3.4 Cyfeiriad Strategol

Mae cyfeiriad strategol clir ac effeithiol yn elfen hanfodol o ddatblygu gwaith Consortiwm cydlynol ac effeithlon. Roedd y prosiect yn elwa o Grŵp Strategol ymrwymedig a weithredodd fel Bwrdd y Prosiect, gan ddarparu cyfarwyddyd strategol cyffredinol y Prosiect a datblygu gwaith Consortiwm. Mae'r grŵp strategol wedi craffu'r deilliannau datblygol a helpu i lunio strwythur llywodraethu newydd ar gyfer gwaith y Consortiwm. Bydd Grŵp y Cyfarwyddwyr yn craffu ac yn monitro yn nghyd-destun corfforaethol ehangach datblygu'r prosiect.  Mae'r trefniad hwn ar gyfer darparu arweinyddiaeth strategol wedi sicrhau perchnogaeth ac wedi dylanwadu ar ddatblygu deilliannau gwaith Consortiwm.

Bydd sefydlu grŵp ffocws penaethiaid a fydd yn cyfrannu at gyfeiriad strategol gwaith y Consortiwm yn sicrhau bod safbwyntiau ysgolion yn rhan ganolog o'r cynllunio a'r monitro strategol.

Bydd cynnwys grŵp deiliaid portffolios a fydd yn ymgymryd â rôl monitro a chraffu gwaith Consortiwm lefel uchel yn gwella'r elfen strategol.

Credwn fod y model hwn yn enghraifft o ddiwygio ar dair lefel ar waith, lle mae pawb dan sylw yn anelu at nod cyffredin, sef gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

### 5.3.5 Arloesedd

Erbyn hyn mae gwaith Consortiwm wedi'i ddiffinio a bydd y continwwm datblygol yn cyfrannu at gyflawni allbynnau a gwell deilliannau mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae gwaith Consortiwm yn ymwneud â galluogi a grymuso staff unigol ac awdurdodau'n gyffredinol i 'gydweithio i wneud pethau'n wahanol' yn hytrach na 'chydweithio i wneud mwy o'r un peth'.  Mae gan waith Consortiwm posibilrwydd o ddarparu ymagweddau arloesol i gyflawni'r allbynnau cynlluniedig a'r potensial i gyflawni safonau uwch.

### 5.3.6 Arbedion

Gall gwaith Consortiwm gyflawni arbedion. Gellir dangos arbedion drwy wasanaeth gwell neu estynedig ar gyfer yr un adnodd (heb fod ar ffurf arian, allbynnau ychwanegol) ac arbedion ariannol (ar ffurf arian, yr un allbynnau ar gyfer allbynnau neu adnodd gostyngol).

Yr arbediad pwysicaf sy'n gallu codi o waith Consortiwm o bosib, yw gwella cyrhaeddiad disgyblion oherwydd bod canlyniadau gwell i'r holl blant a phobl ifanc wrth wraidd gwaith Consortiwm. Codi safonau disgyblion yw canolbwynt gwaith y Consortiwm.

Mae'r arbedion o ran allbynnau gwell y gellir eu cyflawni drwy waith Consortiwm yn cynnwys rhannu arfer, cytuno ar ddeilliannau ar y cyd, cytuno ar bolisïau ar y cyd, cyd-ddarpariaeth, yn enwedig mewn meysydd heb lawer o achosion na galw a chynnydd mewn amser cynhyrchiol.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y posibilrwydd o gyflawni arbedion drwy arbed arian. Mae gwaith Consortiwm yn cynnig y posibilrwydd o gyflawni hyn drwy bethau fel rhannu costau datblygu a chaffael, staffio a hyfforddi ar y cyd a chyllidebau a gronnir.

### 5.4. Y Ffordd Ymlaen

Mae'r holl awdurdodau'n ymrwymedig i waith Consortiwm ac yn cefnogi'r safbwynt nad yw gwaith Consortiwm yn rhywbeth sy'n "ddymunol i'w wneud" ond yn rhywbeth y mae'n "rhaid ei wneud". Mae amrywiaeth eang o fuddion ac arbedion eisoes wedi cael eu nodi o fewn y prosiect hwn ac mae digon o dystiolaeth eisoes o'r buddion cadarnhaol a gyflawnwyd drwy waith Consortiwm.

Mae'r cyfleoedd a nodwyd yn gyffrous ond yn heriol, ac mae Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru'n ymrwymedig i fanteisio ar y cyfleoedd hyn a chyflawni'r camau gweithredu a nodwyd. Mae'r chwe awdurdod eisoes wedi neilltuo arian i ddatblygu gwaith Consortiwm, ac mae'r camau gweithredu y gellir eu cyflawni gyda'r arian hwn wedi cael eu blaenoriaethu. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r camau gweithredu o fewn y raddfa amser a ddymunir, ac i ymgorffori gwaith Consortiwm fel rhan o'r "swydd arferol", bydd angen arian cychwynnol ychwanegol. Felly, bydd ariannu ar gyfer Rhoi'r Cynllun Gweithredu a'r Strwythur, deilliannau ein prosiect Creu'r Cysylltiadau, yn sail y cais am ragor o arian gan Gronfa Wella Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.